

# CYFRIR GOST AR ÔL Y STORM FAWR.

## 1947.

Wedi ei godi o'r 'Gemau o'r Cymro' yn dathlu 50 mlynedd o fodolaeth y papur 1932 --1957.

Gyda'r 'dadmer' yn dechrau yn y Gogledd a'r "meirioli" yn y De daw'r cyfle i ddechrau cyfri'r golled a achosodd saith wythnos o'r eira a'r rhew mwyaf a welwyd y ganrif hon. Cymer gryn amser i weld beth yn union fu maint y difrod i ddiwydiant ac amaethyddiaeth, ond credir i Gymru golli 250,000 tonnall o lo a 300,000 o ddefaid, fel engraifft.

Cydweithredodd gohebwy'r "Y Cymro" ymhob rhan o Gymru i roddi braslun o'r amgylchiadau difrifol yn y wlad wedi i'r storm gyrraedd ei hanterth ddiwedd yr wythnos a'r ymdrechion a fu i fwydo dyn ac anifail yn y dyddiau diwethaf.

Yn Sir Gaerfyrddin bu'r awyrlu yn helpu i gludo bara dros y mor i bentref Pendin. Wedi i'r eira dorri pob cystwll rhwng gorsaf arbrofion yr R.A.F. ym Mhendein gwnaed apel dros y teleffon i Ddinbych y Pysgod am fara, craswyd 400 o dorthau yno gan Mr Percy Powell, a daeth badau achub a hwy dros y dŵr i'r orsaf.

Ond bu'n waeth ar anifeiliaid na dyn a bu un o'r ymdrechion mwyaf lliwgar i'w hachub yn Llangadfan, Sir Drefaldwyn, ddydd Sul. O'r bryn gerllaw gwylodd ein gohebydd yr awyren Dakota gyntaf yn dynesu am 11.30 a.m. at tanau a gynheuwyd i'w harwain tua'r fan lle'r oedd dwy fil o famogiaid wedi eu cau i mewn gan eira ac yn newynnu. Dilynodd dwy awyren arall a gollyngasant dunnell yr un o wair i lawr, mewn 60 o baciau. Yr oedd dynion yno'n barod i'w dosbarthu â bwydwyd 500 o'r defaid cyn nos. Mewn ateb i apel cynrychiolydd Iarll Powys disgwylir ychwaneg o awyrenau gyda gwair.

Ym Mhenybontfawr, Maldwyn, syrthiodd defaid a ddaeth i lawr o'r Berwyn yn farw yn y stryd. Llwyddodd Pwyllgor Amaethu Adegau Rhyfel Maldwyn i gael 200 tonnall o wair o Loegr i'w rhannu yn y sir a chafodd Undeb yr Amaethwyr 60 tonnall. Ond ychydig o amaethwyr Cymreig eraill a gafodd wair. Apeliwyd i Loegr, dywedwyd bod gwerthwyr gyda "unrhyw fath o wair yno" ond methid a'i anfon ar y rheilffordd, ac yr oedd eu cwsmeriaid eu hunain yn galw. Cyffelyb ateb a gafodd amaethwyr y Gogledd wrth apelio at Gaerdydd a De Cymru. Gwaethygodd y safle gan na allai'r dyrnwyr gario ymlaen ar eu gwaith a sicrhau gwellt ychwanegol.

Meddai Mr J. Simon Jones, un o swyddogion Undeb yr Amaethwyr yn Arfon: "Y mae'r gweddill o'r 'kale' wedi ei ddifetha gan rew ac ofnir y bydd y tatw a gadwyd allan dan bridd wedi rhewi'n gorn." Meddai Mr Caradog Jones, ysgrifennydd Undeb Amaethwyr Arfon: "Gresyn na fuasai canolfan yng Ngogledd Cymru lle gallai'r ffermwyr brynu porthiant mewn argyfwng fel hwn." Mae gan Mr Jones eisioes enwau dau gant o amaethwyr sy'n disgwyl am wair. Ni ellir dibynnu ar borfa ychwaith. Bydd y blewyn cynnar wythnosau'n hwy'r yn ymddangos eleni [a brofodd hynny'n wir tybed? Gol.]. Ychwaneger y ffaith na allodd y rhelyw o'r amaethwyr droi cwys o'u cwota aredig hyd yma.

Nid Cymru yn unig a fydd yn dioddef oherwydd y colledion. Â mwy na hanner y defaid a'r wyn a fegir yng Ngogledd Cymru i Loegr. Yn 1938-39 gwerthwyd dros 800,000 o wyn. Yn ystod yr haf a'r hydref y bydd y cyflenwadau mwyaf o gig oen a chig dafad. Bryd hynny y teimlir fwyaf oddi wrth y colledion.

Canlyniad arall i'r prinder porthiant yw fod prisiau gwartheg yn y marts yn is. Dywedai un ffermwr fod prisiau gymaint ag £20 yn is ar gyfartaledd. Cytunai arwerthwyr fod y prisiau ychydig yn is, ond ni chytunai fod gwahaniaeth gymaint ag a nodwyd gan y ffermwr. Ystyrir, er engraifft,

fod pris o £30. 10s a dalwyd am fuwch ym Mhenygroes, Dydd Gwener diwethaf, yn lled isel. Dyma'r pris uchaf a dalwyd yn yr arwerthiant.

Mae'n bosib, meddai Mr Gordon Davies, cynrychiolydd Maesyfed i Gyngor Undeb yr Amaethwyr, wrth ein gohebydd ei bod yn bosib y collwyd 60 y cant o ddefaid yn Sir Faesyfed. Ni ddisgwylir mwy na 20 y cant o'r nifer arferol o wyn ar y bryniau, ond cafodd defaid croesryw yr iseldiroedd well lle er bod y bwyd yn darfod. Meddai Mr Richard Ashton, sy'n gyfrifol am 50,000 o ddefaid corfforaeth Birmingham, sy'n bodoli ar dir y gorfforaeth yng ngyrion Maesyfed, Brycheiniog, Maldwyn ac Aberteifi; "Mewn rhai manau bydd ein colledion yn 60 i 70 y cant. Gallasai rhif ein hwyn fod cyn lleied a'r ddegfed ran o rif y llynedd." Yn ol Mr C.T. Smith, ysgrifennydd Undeb Amaethwyr Brycheiniog a Maesyfed, y mae'n bosib y collir chwarter defaid y ddwy sir, a cholli eu hanner mewn rhai manau.

Mae'r amgylchiadau'n dal mor ddrwg ym Mrycheiniog fel y methodd ein gohebydd ddechrau'r wythnos a mynd i fferm i ymchwilio i wirionedd si bod yr amaethwr wedi gorfod difa ei holl wartheg am eu bod yn newynnu. Amcangyfrifir i ffermwyr Penfro golli £15,000 ar gyfrif llaeth yn unig. Ni chasglwyd 200,000 galwyn un wythnos. Dim ond tri llo a ddaeth i farchnad wythnosol Caerfyrddin, ac fe'i gohiriwyd.

Bu colledion trwm yn ardal y Mynydd Du, Caerfyrddin, ar ferlod mynydd a defaid. Cliriodd 800 o ddefaid un amaethwr ei holl rwdins o'r cae; newynnodd saith o heffrod i amaethwr arall. Yn Sir Ddinbych bu'r golled yn ddifrifol – hyd yn oed yn y dyffrynnoedd, ac yn waeth nag unrhyw sir Gymreig arall, bron, meddai Mr Idwal Jones, prifswyddog Pwyllgor Amaethu Adeg Rhyfel y Sir, wrth ein gohebydd. Eisioes collwyd miloedd o ddefaid ac yng nghylch Hiraethog bu colledion eithriadol. Ofnai yr effeithiau'r wythnosau diwethaf ar sefyllfa fwyd y wlad am flynyddoedd.

Bu brain gwancus yn ymosod ar lygaid defaid yn y sir a'r defaid oherwydd eu gwendid yn methu a'u gwrthsefyll. Collwyd rhwng 20 a 50 y cant o ddefaid Sir Aberteifi a chwarter y nifer arferol o wyn a ddisgwylir. Ofnir y collwyd o 6,000 i 8,000 o ddefaid yn ardal Aberystwyth a Thregaron. Dywedodd Mr Bryn Ysgrifennydd Undeb Amaethwyr y sir, iddo dderbyn cannoedd o geisiadau am fwyd i ddefaid a gwartheg mynydd.

Am dri diwrnod ni aeth dim ond 30,000 galwyn y dydd o laeth Sir Aberteifi i'r hufenfeydd – colled o £3,000 y dydd. Daeth ceir llusg a thractor, fel mewn llawer lle, i helpu, ac yn Aberteifi (ond nid ymhobman) helpai'r Pwyliaid hyd yn oed i glirio'r ffyrdd. Cariodd Pwyliaid flawd ar eu cefnau am bedair milltir i Aberporth. Cyffelyb yw'r stori o Feirionydd – lluwchfeydd ac anobaith y ffermwyr a cholledion difrifol ar y defaid.

Y Cymro Mawrth 14 1947.